CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

10.2.21

Neges i rieni a gwarcheidwaid

Mae ysgolion Môn yn parhau i gynnal trafodaethau rheolaidd â Chyngor Sir Ynys Môn ac mae cynllun bellach yn ei le er mwyn gallu croesawu disgyblion Cyfnod Sylfaen yn ôl i addysg wyneb yn wyneb.

Mae holl ysgolion yr Ynys yn gweithio i geisio sicrhau bod **plant y Cyfnod Sylfaen yn dychwelyd yn raddol gan ddechrau ddydd lau, 25 Chwefror.**

Ein nod yw bod yr holl ddisgyblion Cyfnod Sylfaen wedi dychwelyd yn raddol i'w hystafelloedd dosbarth erbyn dydd Mercher, 3 Mawrth fan bellaf, bydd dysgu o bell yn parhau hyd nes bydd eich plentyn yn ôl yn yr ysgol.

Gan gofio bod niferoedd yr achosion Coronafeirws yn uchel ar yr Ynys ar hyn o bryd, mae Cyngor Môn wedi pwysleisio y bydd yn cymryd yr holl gamau rhesymol er mwyn diogelu iechyd disgyblion a staff yr ysgolion.

Mae'r trefniadau a nodir uchod felly dal i gael eu hadolygu ac fe allent newid.

Bydd eich ysgol yn eich darparu â manylion pellach ac yn cadarnhau unrhyw drefniadau penodol ar gyfer eich plentyn yn y man. Yn y cyfamser, bydd ysgolion yn parhau i ddarparu dysgu o bell i'r holl ddisgyblion.

Noder: Mae mwy a mwy o achosion o'r Coronafeirws wedi eu cysylltu â throsglwyddiad rhwng cartrefi dros yr wythnosau diwethaf. Mae llawer o'r rhain wedi eu hachosi o ganlyniad i deuluoedd neu

Message for parents and guardians

Anglesey schools remains in regular dialogue with the Isle of Anglesey County Council and now have a plan for welcoming Foundation Phase learners.

All schools on the island are working to ensure **a phased return of Foundation Phase (FPh) pupils can begin on Thursday, February 25th.**

Our aim is that all FPh pupils are back in their classrooms by Wednesday, March 3rd at the latest, distance learning will continue until your child is back in school.

Given the current high number of Coronavirus cases on the Island, Anglesey Council has made it clear that it will take all reasonable steps to protect the health of pupils and school staff.

The arrangements noted above are therefore still under review and subject to change.

Your school will provide you with further details and confirm any specific arrangements for your children in due course. In the meantime, all schools will continue to provide distance learning to all learners.

Please note: More and more positive Coronavirus cases on Anglesey have been linked to transmission in-between homes in recent weeks. Much of this had been caused

ffrindiau yn ymweld â'i gilydd yn gymdeithasol.

Mae hefyd yn hanfodol bod eich plant yn osgoi cymysgu â phlant eraill o du allan i'w cartrefi neu swigen gefnogaeth. Mae hyn yn berthnasol i blant o dan 11 oed yn ogystal â phlant dros 11 oed a lle mae plant yn yr un dosbarth neu swigen o fewn yr ysgol.

Mae canllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru i'w gweld yma: https://llyw.cymru/coronafeirws

by family or friends visiting each other socially.

It is also vital that your child/ren avoid mixing with other children outside their household or support bubble. This applies to under 11s as well as over 11s, and where children are in the same 'school or class bubble'.

For the latest Welsh Government guidance, visit: https://gov.wales/coronavirus

Cyngor Sir Ynys Môn

Isle of Anglesey County Council